



Cylchlythyr Wythnosol Ysgol Pencae *Weekly Newsletter*

15.11.24

Annwyl Riant / Gwarcheidwaid,
Dear Parent / Guardian,

Mae wedi bod yn wythnos bwysig yr wythnos hon ble rydyn ni wedi bod yn trafod y pwysigrwydd o ddangos parch at eraill a phwysigrwydd diogelu pawb rhag unrhyw fwlio. Yn ein gwasanaeth cafodd y disgyblion grynodedb o bolisi'r ysgol gyda'r prif neges yn eu hannog i rannu unrhyw bryderon gydag oedolion. Thema'r wythnos oedd Dangoswch Barch, yn enwedig wrth siarad ac anghytuno gyda'i cyfoedion.

It's been a very important week this week with the pupils learning about the importance of showing respect towards others and that it's everyone's responsibility to protect others from bullying. In our assembly they had a summary of our policy with the main message being - share your concerns / feelings with an adult. The theme for the week was Show Respect, especially when talking and disagreeing with others.

Bore Coffi Cynhwysiant a Lles / Inclusion and Wellbeing Coffee Morning

Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a wnaeth ymuno gyda ni ar gyfer ein Bore Coffi Cynhwysiant a Lles. Roedd hi'n braf iawn cynnig y cyfle i chi allu sgwrsio'n anffurfiol gyda'r Seicolegydd Addysg, Emma Lovett a'r athro arbenigol llesiant, Chris Walker. Hyderwn eich bod wedi gweld budd yn y cyfle.

Diolch to the parents who joined us for our Inclusion and wellbeing coffee morning. We were glad to be able to provide the opportunity for our parents to have informal conversations with the school's Educational Psychologist, Emma Lovett and our Wellbeing Specialist Teacher, Chris Walker. We hope that you found it beneficial.

Sinema Pencae Cinema

Roedd y neuadd dan ei sang nos lau wrth i'r disgyblion fwynhau Sinema Pencae. Y ffilm y tro hwn oedd The Croods: A New Age. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am yr holl ddanteithion a'r ci poeth! Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr a'r staff am eu hamser.



The hall was full to the brim on Thursday evening as our children enjoyed Sinema Pencae. The film of choice this time was The Croods, A New Age. Thank you to the PTA for all the treats and the hot dog. We would also like to thank the volunteers and staff for their time.

Bl2: Trip i'r Sinema / Cinema Trip

Aeth blwyddyn 2 yn llawn cyffro i Ganolfan Celfyddydau Chapter i weld dwy raglen gyntaf cyfres newydd Deian a Loli. Roedd y digwyddiad hwn o dan arweiniad Into Film. Roedd y disgyblion wrth eu boddau gyda'r rhaglen gyda hud a lledrith 'Ribidi Rew' yn eu swyno nhw gyd!

Year 2 had an exciting trip to Chapter Arts Centre this week to watch the first two episodes of the new series of Deian a Loli. This event was organised by Into Film. The children were in their element experiencing the magical adventures of Deian and Loli and the spell, Ribidi Rew.

Blwyddyn 6 / Year 6

Mae blwyddyn 6 wedi cael profiadau di-ri'r wythnos hon. Dydd Llun fe wnaethon nhw gynrychioli'r ysgol yng Ngwasanaeth y Cofio Llandaf. Dangosodd y disgyblion barch ac empathi arbennig i'r rheiny a gollwyd trwy ryfel.

Ar ddydd Mercher, aeth y disgyblion i ymweld â Theml Hindŵaidd Caerdydd yn Grangetown. Cafon nhw brofiad arbennig o weld a chlywed am y grefydd, arsylwi holl ddelwau'r deml, holi cwestiynau cyn profi sesiwn yoga a meddwlgarwch. Yn dilyn eu hymweliad, aethon nhw i Amgueddfa Caerdydd yn yr Ais er mwyn gweld hanes Amrywiaeth yng Nghaerdydd.

Year 6 have been extremely busy this week. On Monday they represented the school at the Remembrance Service in Llandaf. The pupils showed excellent respect and empathy towards those lost through war.

On Wednesday, the pupils went to visit the Hinduism Temple in Grangetown. They heard all about the religion, they observed the statues of various deities and they got to ask questions before enjoying a session of yoga and mindfulness. They went on from the Mandir to Cardiff Museum in the Hayes to learn about the history of Diversity in Cardiff.

Bl3-6: Gweithdy Gwrth-fwlio / Anti-bullying Workshop

Daeth Theatr Konflux i'r ysgol ddydd Mercher i gynnal gweithdy drama gwrth-hiliaeth gyda'r disgyblion. Arsylwyd trafodaethau arbennig gan y disgyblion.

Konflux Theatre came in this week to hold a drama workshop with the children that targeted anti-racism. The children discussed excellently.

Bl2 a 5: Ymweliad gan y Gwasanaeth Tân / Visit from the Fire Service

Roedd cynnwrf mawr wrth i'r injan dân ymweld â'r ysgol yr wythnos hon. Cyfarfu blwyddyn 2 a 6 â swyddogion tân gan glywed am eu gwaith, eu hoffer diogelwch a dysgu sut i gadw'n ddiogel o amgylch tân.

There was great excitement as the fire engine visited the school this week. Year 2 and year 5 met with fire officers and heard all about their work, their protection clothing and how to keep safe around fire.

Tocynnau Sioe Nadolig Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Christmas Show Tickets for Reception class, Year 1 and Year 2

Mae modd archebu tocynnau oddi ar adran **Gweithgareddau** Group Ed. Uchafswm o 3 tocyn pob teulu ac mae'r tocynnau yn £5 yr un. Bydd paned a mins pei yn rhan o'r pris!

Gofynnwn i chi ddanfôn yr arian mewn amlen wedi labelu'n glir i'r ysgol os gwelwch yn dda yna byddwch yn derbyn eich tocynnau.

*You will be able to order your tickets through the **Activities** part on Group Ed. There is a maximum of 3 tickets per family and the tickets are £5 each. There's a mince pie and cup of tea/coffee in the price. We ask you to send the money to school in a clearly labelled envelope please and then you will receive your tickets.*

Ymaelodi gyda'r Urdd Membership

Mae'r amser wedi dod i ail ymaelodi gyda'r Urdd. Os ydych yn dymuno bod eich plentyn yn aelod o'r Urdd er mwyn manteisio a chystadlu yng nghystadlaethau'r Urdd - yn yr Eisteddfod neu dwrnameintiau chwaraeon, yna dilynwch y ddolen isod er mwyn eu cofrestru.

The time has come to renew your child's Urdd membership. If you wish for your child to be a member of the Urdd and compete in the Urdd competitions, both Eisteddfod activities and sports tournaments, please follow the link below to register your child.

[Ymuno gyda'r Urdd / Join the Urdd](#)



Clybiau / Clubs

	Dydd Llun <i>Monday</i>	Dydd Mercher <i>Wednesday</i>	Dydd Iau <i>Thursday</i>	Dydd Gwener <i>Friday</i>
12.45 - 13.15				<u>B13-6</u> Clwb Chwaraeon Urdd Urdd Sports Club archebu lle / book a place
3.30 - 4.30	<i>Clwb Canu (singing)</i> <i>Clwb Pêl-rwyd (netball)</i>	<i>Dancefit</i>	Code Club Aelodau yn unig / members only <u>3.30 - 4.30</u> Pêl-droed / Rygbi Football / Rugby	



Mwynhewch y penwythnos / *Enjoy the weekend,*

Siwan Dafydd

Mis Hydref Sialens Siarter Iaith y Teulu <i>Language Charter Family Target</i>	Mis Hydref Proc i'r Cof Diogelwch ar y We <i>Internet Safety Tip</i>	Mis Hydref Hawliau Plant <i>Children's Rights</i>
<p>Beth am ddweud diolch yn Gymraeg bob tro.</p> <p><i>How about using Diolch (thank you) in Welsh everytime you shop.</i></p> 	<p>Mae Kiddie yn borwr gwe fwy diogel i blant.</p> <p><i>Kiddie is a safer web browser for children.</i></p> 	<p>Ni ddylech gael eich niweidio a dylech gael gofal a'ch cadw'n ddiogel.</p> <p><i>You should not be harmed and should be looked after and kept safe.</i></p>

Cysylltiadau Defnyddiol / Helpful Links:

[Ffurflen Meddyginiaeth / Medicine Form](#)

[Ffurflen Gwyliau / Holiday Form](#)

[Clwb Carco](#)

[Gwaith cartref / Home Work](#)



bit.ly/gwaithcartrefPC

DYDDIADUR YR YSGOL / SCHOOL DIARY

Dyma ddyddiadau a bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser
Here are key dates and more information will be shared nearer the time

Dyddiad / Date	Digwyddiad / Event
18.11.24	Bl6: Gwyllo Sioe Ysgol Glantaf Watching Ysgol Glantaf's Show



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



[ysgolpencae](https://www.instagram.com/ysgolpencae)



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851

18.11.24	BI6: Dyddiad Cau ceisiadau ysgol uwchradd Deadline for Secondary School Applications
20.11.24	BI2: Ymweld â'r Gadeirlan Visit to the Cathedral
22.11.24	CRHA / PTA: Stondin Gwisgoedd Nadoligaidd Ail Law (iard) Pre-loved Christmas Clothes Stall (yard)
26.11.24	BI6: Trip Crucial Crew Crucial Crew Trip
26.11.24	BI3: Trip i'r sinema, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld) Cinema Trip, The Jungle Bunch World Tour (Cineworld)
3.12.24 5.12.24	Derbyn, Blwyddyn 1 a 2: Sioe Nadolig yr adran Dysgu Sylfaen Reception, year 1 and 2: Foundation Learning Christmas Show
5.12.24	Stondin Gacennau BI6 ar yr iard - dewch â phres gyda chi os am gacen. Bydd yr elw yn mynd at barti diwedd cyfnod blwyddyn 6. YR6 Cake stall on the yard - bring money if you want a cake. The profit will go towards year 6' end of an era party.
6.12.24	Dros 7: ymarfer Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan Over 7's: Christmas Service Practice at the Cathedral
10.12.24	BI1 a 2: Mynd i'r Sherman: Yr Hugain Fach Goch Going to the theatre: Little Red Riding Hood
13.12.24	Ffair Nadolig / Christmas Fair Ar dir yr ysgol yn syth ar ôl ysgol / <i>On School grounds straight after school</i>
17.12.24	Derbyn a BI1: Trip i sioe Cyw Reception and Year 1: Trip to Cyw Christmas Show
18.12.24	BI3-6: Gwasanaeth Nadolig yn y Gadeirlan 9.30yb Cathedral Christmas Service - 9.30am
20.12.24	Diwrnod Olaf tymor yr Hydref / Last Day of Autumn Term 23.12.24 - 6.1.25: Gwyliau Nadolig / Christmas Holiday
6.1.25	Diwrnod HMS / Inset Day
7.1.25	Disgyblion nôl yn yr ysgol



	Pupils back in school
3.2.25	Diwrnod HMS / Inset Day
24.2.25 - 28.2.25	Hanner Tymor / Half Term
17.3.25 - 21.3.24	BI5: Gwersi Seiclo Cycling Lessons
9.4.25 - 11.4.25	BI4: Maes y Fron Call of the Wild
11.4.24	Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn / Last Day of Spring Term 14.4.25 - 25.4.25: Gwyliau Pasg / Easter Holiday
26.5.25 - 30.5.25	Hanner Tymor / Half Term
2.6.24 - 3.6.24	BI3: Pentre Ifan a Chastell Henllys Pentre Ifan and Castell Henllys
9.6.25 - 20.6.25	BI3: Gwersi Nofio <i>Swimming Lessons</i>
18.7.25	Diwrnod ola'r tymor / Last Day of term 2.30pm: Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 Leavers Assembly
21.7.25	Diwrnod HMS / Inset Day



ysgolpencae@caerdydd.gov.uk



ysgolpencae



www.ysgolpencae.cymru



02920 563 851